

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg:
Canolfan Ddeintyddol St
Teilo**

11 Chwefror 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb.....	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.	12
5.	Y Camau Nesaf.....	13
6.	Methodoleg	14
	Atodiad A.....	16

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Ganolfan Ddeintyddol St Teilo yn 168 St Teilo Street, Pontarddulais, Abertawe. SA4 8LH ar 11 Chwefror, 2016.

Esboniodd AGIC sut roedd Practis Deintyddol St Teilo yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn

2. Cyd-destun.

Mae Canolfan Ddeintyddol St Teilo yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardaloedd Pontarddulais, Hendy a Fforest Gorllewin Morgannwg. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Practis cymysg yw Canolfan Ddeintyddol St Teilo sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol GIG a rhai preifat

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd cymwys, un deintydd dan hyfforddiant, un hylenydd deintyddol, dwy nyrs ddeintyddol gymwys, dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, a thri aelod o staff gweinyddol.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol GIG a rhai preifat ynghyd â rhai ymweliadau cartref ar gyfer cleifion GIG yn ardal Pontarddulais nad ydynt yn gallu gadael eu cartrefi.

3. Crynodeb.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Canolfan Ddeintyddol St Teilo yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag ati. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio yn y practis ers blynnyddoedd lawer, ac yn ei ystyried yn lle hapus a chyfeillgar i weithio. Gwelsom staff yn ymgysylltu â chleifion mewn modd proffesiynol, cwrtais ac addysgiadol.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:-

- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent yn lân ac yn daclus.
- Roedd cleifion yn ei chael yn hawdd cael apwyntiad, ac roedd system negeseua sydyn ar waith i hysbysu cleifion am unrhyw oedi i'w hapwyntiad.
- Roedd polisïau a gweithdrefnau da ar waith ar gyfer rheoli heintiau.
- Roedd cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant.
- Roedd y practis wedi ystyried anghenion cleifion â phroblemau symudedd.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin, ei storio a'i waredu mewn modd diogel. Rydym yn argymhell y gallai'r practis wneud y gwelliannau canlynol:

- Dylai cofnodion cleifion fod yn gyson a dylent gofnodi'r cyngor hyrwyddo iechyd a roddir gan ddeintyddion.
- Dylid cael system ar gyfer casglu barn cleifion am y gwasanaeth yn rheolaidd.
- Dylai'r practis ymchwilio i'r posibilrwydd o gael deunydd yn y Gymraeg ar gyfer cleifion sy'n dymuno cyfathrebu yn y Gymraeg.
- Dylid tynnu offer deintyddol o'u pecyn sterileiddio yn syth cyn eu defnyddio, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o'u heintio.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Roedd tystiolaeth o holiaduron cleifion ac o siarad â dau deulu bod y practis yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys: -

“Tîm gwydh, cwrtais, mor groesawgar, tîm hyfryd.”

“Mae'r trefniadau rhannu gwybodaeth yn ardderchog ac yn briodol i sicrhau fy mod yn deall.”

“Fel arfer mae rhywun yn fy ngweld i o fewn munudau ar ôl i mi gyrraedd.”

“Mae gan fy mab awtistiaeth ac mae'n cael ei drin yn araf, ac mae'r deintydd yn gwneud ei orau i sicrhau nad yw fy mab yn mynd yn flin, gallwn i ddim estyn digon o ddiolch iddyn nhw.”

Gofal gydag urddas

Canfuom fod y staff yn broffesiynol, yn barchus, ac yn ofalgar wrth sgwrsio â chleifion a oedd yn mynychu'r feddygfa ac ar y ffôn. Roedd man bach y tu ôl i ddesg y dderbynfa i gleifion siarad yn breifat â'r staff ac fe'n hysbyswyd bod cleifion hefyd yn gallu defnyddio ystafell aros i fyny'r grisiau pan oedd ar gael. Roedd yr adborth gan holiaduron cleifion yn gadarnhaol iawn. Roedd cleifion a wnaeth ymateb i'n holiadur wedi eu cofrestru gyda'r practis ers rhwng 5 a 50 mlynedd, ac ar y cyfan roeddent yn fodlon ar y wybodaeth a ddarperid iddynt. Nododd y cleifion eu bod yn teimlo'n gyfforddus i drafod unrhyw bryderon neu gwestiynau gyda'r staff.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ymdrechu i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn da bryd, ac nid oedd y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron na'r teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw wedi profi oedi yn eu hapwyntiadau. Roedd gan y practis system 'negeseua sydyn' i hysbysu cleifion am unrhyw oedi. Roedd cleifion o'r farn ei bod yn hawdd gwneud apwyntiad, gan nodi bod y staff bob amser yn ceisio ymateb i'w gofynion. Roedd cleifion yn gwybod sut i fynd at

ofal deintyddol y tu allan i oriau, am fod neges ar beiriant ateb y ffôn, a hysbysiad ar ddrws ffrynt y practis yn dangos y rhif i'w ffonio.

Cadw'n iach

Roedd ymatebion i holiaduron cleifion yn dangos bod cleifion yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd taflenni gwybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael o ddesg y dderbynfa ac roedd rhai taflenni wedi eu harddangos yn y man aros. Wrth edrych ar gofnodion cleifion gwelsom nad oedd hanes cymdeithasol megis ysmegu a defnydd o alcohol yn cael ei ymchwilio yn ystod archwiliadau cleifion. Gwnaethom argymell y dylai'r practis wella eu gwybodaeth a'u cyngor hyrwyddo iechyd.

Cafodd dau o'r holiaduron cleifion a gawsom eu llenwi yn Gymraeg. Dywedwyd wrthym fod un o'r deintyddion yn siaradwr Cymraeg rhugl ac yn gallu cyfathrebu â chleifion yn y Gymraeg. Fodd bynnag, yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried a oes angen i wybodaeth ysgrifenedig fod ar gael yn y Gymraeg hefyd. Gallai'r practis gynnal arolwg cleifion i ddarganfod y galw ac i weld a oes angen gwneud hyn.

Gofal unigol

Ceir mynediad at y practis drwy gyfres o risiau ac nid yw'r practis yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, felly. Fodd bynnag, roedd y staff wedi ystyried hyn ac yn lle hynny roeddent yn cynnig ymweliadau cartref i'w cleifion sy'n methu â mynychu'r practis. Roedd cleifion a oedd yn gallu mynychu'r practis ond a oedd ag anawsterau symudedd yn cael eu gweld yn ystafell driniaeth y llawr gwaelod. Roedd holiaduron cleifion a gwblhawyd yn dangos bod cleifion yn fodlon bod y gofal a ddarperid yn cyd-fynd â'u hanghenion unigol a bod y deintyddion a'r staff yn neilltuo amser i wrando ar eu pryderon ac i ateb cwestiynau.

Roedd gan y practis lyfr cwynion, ond gwelsom nad oedd unrhyw gwynion wedi eu cofnodi, ac fe'n hysbyswyd nad oedd unrhyw gwynion wedi eu derbyn. Dywedodd y staff fod problemau a grybwyllir gan gleifion yn cael sylw ar y pryd, drwy gael sgysiau wyneb yn wyneb, a bod hyn yn eu galluogi i ymateb a'u datrys yn brydlon. Gwnaethom awgrymu y gellid cofnodi sylwadau canmoliaethus hefyd.

Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos a oedd yn hysbysu cleifion sut i wneud cwyn, gan gynnwys trefniadau cwynion y GIG (a elwir 'Gweithio i Wella') a gweithdrefn ar gyfer cleifion preifat. Ni chyfeiriwyd at AGIC yn y weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat, a gwnaethom argymell hyn am ei fod yn angenrheidiol yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru).

Gwnaethom nodi bod y rhestri prisiau ar gyfer triniaethau wedi eu harddangos yn yr ystafelloedd triniaeth yn hytrach na'r man aros ar gyfer cleifion. Gwnaethom awgrymu y gallai'r practis symud y rhestri prisiau hyn i'r man aros fel eu bod yn fwy gweladwy i'r cleifion.

Yr hyn mae angen ei wella:-

Dylid ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y polisi cwyno ar gyfer cleifion preifat.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Ar y cyfan canfuom fod y practis yn bodloni'r safonau gofynnol. Gofelir am gleifion mewn amgylchedd glân a diogel lle caiff sylweddau peryglus eu rheoli mewn modd priodol. Gwnaethom nodi pryderon ynglŷn â'r ffaith nad oedd contract yn ymwneud â gwasanaethu peiriannau radiograffig. Fodd bynnag, gwnaeth y practis ddatrys y mater hwn o fewn 24 awr i'r arolygiad. Gwnaethom nodi hefyd bod angen i gynlluniau llawr nodi parthau a reolir (mannau lle mae risg o ymbelydredd pelydrau-X).

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Roedd y practis i'w weld yn lân ac mewn cyflwr da, ac roedd digon o le yno. Câi iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion eu sicrhau drwy gynnal profion cymeradwy ar ddyfeisiau cludadwy, diffoddwyr tân wedi eu lleoli mewn mannau strategol, a chontract cynnal a chadw offer tân ar waith. Gwelsom hefyd fod y practis wedi cynnal asesiadau risg yn ymwneud â sylweddau peryglus.

Ar adeg yr arolygiad gwelsom fod ymgynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd wedi'i enwi yn y practis, ond nid oedd tystiolaeth bod contract ar gael ar gyfer gwasanaethu peiriannau radiograffig (pelydr-X). Fodd bynnag, gwnaethom dynnu sylw'r practis at y mater difrifol hwn ac yn syth ar ôl yr arolygiad fe'n sicrhawyd bod contract ar waith bellach.

Roedd y ddau ddeintydd wedi derbyn hyfforddiant Ymbelydredd Ïoneiddio o fewn y pum mlynedd ddiwethaf yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y tîm deintyddol. Canfuom nad oedd cynlluniau llawr i ddangos 'Parthau a Reolir' ar gyfer pob ystafell driniaeth. Mae parthau a reolir yn dangos lle mae risg o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd. Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cynnal archwiliadau radiograffig er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn.

Yr hyn mae angen ei wella:-

Dylid nodi parthau ymbelydredd a reolir yn eglur.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth o gontract cynnal a chadw nwy, a chan fod cyflenwad nwy i'r adeilad gwnaethom gynghori'r practis bod angen rhoi sylw i hyn ar unwaith. Ar ôl yr arolygiad, anfonodd y practis dystysgrif diogelwch nwy i

AGIC a oedd yn cadarnhau bod y cyflenwad nwy i'r adeilad wedi'i wirio ac yn ddiogel. Roeddem yn fodlon ar yr wybodaeth hon.

Roedd y rhan fwyaf o'r offer a chyfarpar deintyddol wedi'i storio mewn man glân a diogel, ond gwelwyd bod offer endodontig yn rhydd yn nroriau'r ystafell driniaeth. Er i ni gael ein sicrhau nad oedd y practis yn aildefnyddio unrhyw offer, gwnaethom argymhell y dylai offer gael eu tynnu o'u pecynnau yn syth cyn iddynt gael eu defnyddio yn unig, yn hytrach na chael eu paratoi ymlaen llaw.

Yr hyn mae angen ei wella:

Dylai'r practis dynnu offer deintyddol o'u pecyn di-haint yn syth cyn iddynt gael eu defnyddio yn unig.

Gwnaethom hefyd gyngori'r practis i adolygu ei drefniadau ar gyfer trin offer miniog (nodwyddau) er mwyn sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau presennol.

Rheoli heintiau

Roedd gan y practis bolisi rheoli heintiau ac roedd tystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd staff nyrsio'n deall yn glir eu cyfrifoldebau o ran gweithdrefnau sterileiddio a dadheintio. Mae enghreifftiau o sut roedd y practis yn bodloni'r safonau gofynnol yn cynnwys y canlynol:-

Cedwid cofnod yn dangos bod profion yn cael eu cynnal o'r offer sterileiddio.

Roedd cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys menig, masgiau llygaid a ffedogau ar gael.

Roedd ystafell ddadheintio neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer.

Nid oedd sinc ar gyfer golchi dwylo yn yr ystafell ddadheintio. Lleolwyd sinc ar wahân yn y toiled drws nesaf. Dylai'r practis ymchwilio i'r opsiynau fel y gellid cael sinc neilltuedig ar gyfer golchi dwylo yn yr ystafell ddadheintio yn y dyfodol os oes modd.

Er inni ganfod fod y ddau awtoclaf (cyfarpar sterileiddio) a ddefnyddid yn y practis yn cael eu cadw mewn cyflwr priodol ac y cynhelid gwiriadau dyddiol boddhaol o'r pwysedd a'r tymheredd, nid oedd y system a ddefnyddid i gadarnhau bod pob cylchred sterileiddio wedi'i gynnal yn iawn, ac nid oedd mor gadarn ag y mae angen iddi fod. Gwnaethom drafod hwn â'r practis a'u

cyngori i ystyried gosod teclynnau cofnodi data a fyddai'n cofnodi'r wybodaeth hon yn awtomatig.

Yr hyn mae angen ei wella:-

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod data o bob cylchred sterileiddio yn cael ei gofnodi'n briodol yn unol â chanllawiau WHTM 01-05.

Gofal effeithiol

Gwnaethom ystyried gweithdrefnau'r practis ar gyfer ymdrin ag argyfwng claf (cwympo) yn y practis. Roedd gan y practis bolisi dadebru priodol a dau swyddog cymorth cyntaf enwebedig, ond nid oedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod sesiwn hyfforddiant mewnol wedi'i threfnu ar gyfer yr wythnos ar ôl yr arolygiad, ac roeddem yn fodlon ar hyn.

Canfuom fod gan y practis gyflenwad priodol o gyffuriau brys. Gan fod y practis yn cynnal ymweliadau cartref, roedd pecyn argyfwng priodol ar gael at y diben hwn. Gwnaethom gynghori'r deintydd i sicrhau bod ei yswiriant car yn cynnwys cludo cyffuriau brys ac ocsigen sy'n hysg ei natur.

Diogelu

Roedd gan ddeintyddion a nyrsys deintyddol dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Nid oedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu plant ac oedolion, a chanfuom fod angen diweddarau polisiau Amddiffyn Plant ac Oedolion y practis.

Yr hyn mae angen ei wella:-

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu priodol ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod polisiau diogelu plant ac oedolion cyfredol ar waith sy'n cynnwys gweithdrefnau lleol manwl gywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar y cofnodion cleifion ar gyfer y deintyddion, y deintydd dan hyfforddiant, a'r glanweithydd deintyddol. Er bod y cofnodion yn foddhaol ar y cyfan, roedd angen rhoi sylw i'r materion canlynol:-

- Roedd angen cofnodi hanes meddygol cleifion mewn modd priodol, a chynnwys gwybodaeth am ysmegu, alcohol a risg canser.

- Nid oedd hanesion meddygol bob amser wedi eu llofnodi na'u cydlofnodi ar gyfer pob cwrs o driniaeth. Er nad yw cydlofnodi'n orfodol, mae'n rhaid i'r practis gael system gyson ar gyfer sicrhau bod y deintydd yn gwirio pob hanes meddygol.
- Roedd angen i gynlluniau triniaeth gael eu llofnodi gan y claf (cydsyniad gwybodus), ac i ddewisiadau gael eu trafod a'u cofnodi.
- Dylai'r math hwn o archwiliad gael ei gofnodi yn nodiadau'r claf, er enghraifft, lle cynhaliwyd sgrinio ar gyfer canser y geg, dylai hwn gael ei gofnodi'n benodol yn unol â safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
- Mae'n rhaid i gofnodion cleifion gynnwys cyfiawnhad am y sganau pelydr-X a gymerwyd, graddio'r pelydrau-X, a'r canfyddiadau a gofnodwyd.

Er mwyn sicrhau cysondeb o ran cadw cofnodion cleifion a gwella'r dysgu ac arferion gorau, gwnaethom gynghori'r practis i gynnal archwiliadau clinigol rheolaidd sydd wedi eu hadolygu gan gymheiriaid.

Yr hyn mae angen ei wella:-

Dylid gwneud y gwelliannau canlynol yng nghyswllt cofnodion cleifion:

- ***Dylid cofnodi hanesion meddygol a dylent gynnwys hanes cymdeithasol***
- ***Dylai'r deintydd lofnodi a gwirio hanesion meddygol***
- ***Dylai cynlluniau triniaeth gael eu llofnodi gan y claf (cydsyniad gwybodus), a dylai'r dewisiadau gael eu trafod a'u cofnodi***
- ***Dylai'r math penodol o archwiliad gael ei gofnodi yn nodiadau'r claf, er enghraifft, lle gwnaed sgrinio ar gyfer canser y geg, dylai hyn gael ei gofnodi'n benodol***
- ***Dylid cofnodi cyfiawnhad, graddiad a chanfyddiadau clinigol pelydrau-X.***

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

O'r sgysiau â'r nyrsys, deintyddion a'r staff gweinyddol roedd yn amlwg eu bod yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, ac roeddent i'w gweld yn grŵp hapus, bodlon a chydlynol. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi eu cyflogi yn y practis ers blynnyddoedd lawer.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn sicr o ran trafod unrhyw broblemau yn ymwneud â byd gwaith gyda staff uwch naill ai drwy'r broses arfarnu neu'n fwy anffurfiol. Dywedodd y staff hefyd fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i roi sylw i unrhyw anghenion personol a oedd yn codi.

Roedd gan y practis ddewis da o bolisiâu perthnasol a gedwid mewn ffolder polisiâu, a gwnaethom egluro i'r practis pa mor bwysig yw sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau'n gyfredol. Gwnaethom awgrymu hefyd y gallai'r staff lofnodi ar ôl darllen polisi, ac y gallai'r practis gadw cofnod o hyn.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a'u bod wedi derbyn y brechiadau Hepatitis B, ac fel y nodwyd, roedd gwiriadau DBS y ddau ddeintydd cofrestredig yn gyfredol.

Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant indemniad priodol ar waith, a'i fod yn cwmpasu'r holl staff a gyflogid yn y practis.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd, a oedd yn cynnwys sesiynau 'Cinio a Dysgu', gan hybu dysgu a datblygiad y staff. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod y practis yn hybu datblygiad proffesiynol parhaus staff (fel y gwelwyd yn y ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus).

Er inni weld tystiolaeth bod y practis yn cynnal rhai archwiliadau perthnasol, nid oedd tystiolaeth bod trefniadau llywodraethu clinigol neu sicrwydd ansawdd ffurfiol eraill, ac mae angen adolygu hyn.

Yr hyn mae angen ei wella:

Ffurfioli trefniadau llywodraethu clinigol a sicrhau ansawdd.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol St.Teilo yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd cam(au) gweithredu yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o fewn GIG Cymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008¹ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.² Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

¹<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

²<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisiâu a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Canolfan Ddeintyddol St. Teilo

Dyddiad yr arolygiad: 11 Chwefror 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
Ansawdd Profiad y Claf					
7.	Dylid ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y polisi cwyno ar gyfer cleifion preifat	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008 4. Adran 28 (1) Hysbysiad o newidiadau.			
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
8	Dylid nodi parthau ymbelydredd a reolir yn eglur.	Safonau Iechyd a Gofal 2.9			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
		Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000			
9	Dylai'r practis dynnu offer deintyddol o'u pecyn di-haint yn syth cyn iddynt gael eu defnyddio yn unig.	MEMORAND WM TECHNEGO L IECHYD CYMRU 01-05. 2.20			
10	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod data o bob cylchred sterileiddio wedi'i gofnodi'n briodol yn unol â chanllawiau WHTM 01-05	MEMORAND WM TECHNEGO L IECHYD CYMRU 01-05. Adran 4			
10	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu priodol ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion.				

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod polisiau diogelu plant ac oedolion cyfredol ar waith sy'n cynnwys gweithdrefnau lleol manwl gywir.				
11	<p>Dylid gwneud y gwelliannau canlynol yng nghyswllt cofnodion cleifion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylid cofnodi hanesion meddygol a dylent gynnwys hanes cymdeithasol • Dylai'r deintydd lofnodi a gwirio hanesion meddygol • Dylai cynlluniau triniaeth gael eu llofnodi gan y claf (cydsyniad gwybodus), a dylai'r dewisiadau gael eu trafod a'u cofnodi • Dylai'r math penodol o archwiliad gael ei gofnodi yn nodiadau'r claf, er enghraifft, lle gwnaed sgrinio ar gyfer canser y geg, dylai hyn gael ei gofnodi'n benodol 	<p>Safon 4.1. y Cyngor Deintyddol Cyffredinol</p> <p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	<ul style="list-style-type: none"> Dylid cofnodi cyfiawnhad, graddiad a chanfyddiadau clinigol yng nghyswllt sganiau pelydr-X. 	Meddygol) 2000			
Answadd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
12	Ffurfioli trefniadau llywodraethu clinigol a sicrhau ansawdd				

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: